**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/0468/21

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Chwefror 2021

Annwyl Dai,

Rwy'n cyfeirio at y llythyr a anfonoch i fyrddau iechyd ar 20 Ionawr ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i effeithiau COVID-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol.

Ym mhwynt 7 yn eich llythyr, rydych yn cyfeirio at ddyraniad ychwanegol o £30m ar gyfer amseroedd aros. Roeddwn yn awyddus i sicrhau ei bod yn glir nad yw Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar wahân ar gyfer amseroedd aros yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Fel y gwyddoch, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi gorfod gohirio'r rhan helaeth o'r gofal rheolaidd a ddarperir ganddynt, er mwyn sicrhau bod capasiti o ran y gweithlu a gwelyau ar gael i reoli effeithiau parhaus COVID-19. Felly, mae'r gofal rheolaidd sydd wedi gallu parhau eleni wedi cael ei ariannu o ddyraniadau craidd y byrddau iechyd, ac ni fu'n rhaid darparu cyllid ychwanegol.

Mae'n bosibl eich bod yn cyfeirio at y £30m ar gyfer trawsnewid gofal heb ei drefnu a gofal brys, a oedd wedi ei gynnwys yng Nghynllun Diogelu'r Gaeaf, ac a oedd yn rhan o'r pecyn cyllid ar gyfer sefydlogi'r GIG a gyhoeddais ar y cyd â'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ym mis Awst y llynedd. Cafodd y cyllid hwn ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau a sicrhau cadernid y gwasanaethau gofal brys yn ystod cyfnod y gaeaf.

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i roi sylw i'r cleifion sy'n dal i aros i gael gofal rheolaidd, ond fel y dywedais nifer o weithiau, mae'n debygol y bydd hyn yn cymryd rhai blynyddoedd, ac y bydd angen buddsoddi parhaus yn ystod tymor y Senedd nesaf.

Rwy'n hyderu bod hyn yn egluro'r sefyllfa o ran cyllid.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.